# CYNGOR BLYNYDDOL 2/5/19

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda Ann Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Rhoddwyd anerchiad gan y Cynghorydd Annwen Hughes, Cadeirydd 2018/19.

## 1. CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Edgar Wyn Owen yn gadeirydd am 2019/20.

Llofnododd y Cynghorydd Edgar Wyn Owen ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2019/20.

## 2. IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Simon Glyn yn is-gadeirydd am 2019/20.

Llofnododd y Cynghorydd Simon Glyn ddatganiad yn derbyn y swydd o is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2019/20.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Linda Morgan, W.Roy Owen, W.Gareth Roberts, Hefin Underwood a Gethin Glyn Williams.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2019 fel rhai cywir.

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Linda Ann Jones a'r teulu ar golli mab yn ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Croesawyd y Cynghorydd Gareth Tudor Morris Jones, yr aelod newydd dros Ward Morfa Nefyn, i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

Llongyfarchwyd:-

- Y criw o Gynghorwyr a enwebwyd gan Prostate Cymru am wobr ar ôl codi dros £8,000 i Elusen Prostate Cymru yn ystod digwyddiad "Trôns dy Dad" yn Awst 2018. Nodwyd y bu'r Cynghorwyr Dilwyn Lloyd, Roy Owen a Steven Churchman yn y seremoni wobrwyo yng Nghaerdydd ym mis Ebrill.
- Mali Jones o Ysgol y Berwyn, Y Bala, am sgorio cais gwych i Dîm Rygbi Merched dan 18 Cymru yn erbyn Lloegr yn ddiweddar.
- Lowri Howie, o Ysgol Gynradd Llanbedr, ar ennill cystadleuaeth sgïo slalom rhyng-ysgolion Prydain yn ddiweddar yn Pila, yr Eidal, gan ei gwneud yn brif enillydd y merched dan 10 oed, a thrwy hynny roi Ysgol Gynradd Llanbedr, ynghyd â Gwynedd, ar y map.

## 7. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

## 8. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 9. CWESTIYNAU

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Kevin Morris Jones

"Yn dilyn yr holl drafferthion gyda'r sefyllfa barcio yn Llanberis dros y Pasg, byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod beth mae'r Cyngor yma yn bwriadu wneud i wella'r sefyllfa, gan gadw mewn cof bod rhaid cael cydbwysedd gyda hybu twristiaeth ac iechyd a diogelwch yn yr ardal?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Griffith**

"Mae'n glir bod yr Adran wedi cael amser prysur dros y Pasg - roedd y tywydd yn boeth ofnadwy, ac mae'r Aelod yn adrodd yr hyn a welsom yn yr ardal, pryd roedd yna gymaint o dwristiaid yma dros y Pasg. O ran beth mae'r Adran yn mynd i'w wneud,

mae'r Adran yn ymdrechu i wneud gwaith dros y sir yn gyfan gwbl. Mae yna waharddiadau parcio, mae yna arwyddion, mae yna ddirwyon wedi cael eu gosod, a bydd y sefyllfa yn cael ei fonitro dros y cyfnodau yma i wella trefniadau, nid yn unig i dwristiaid, ond hefyd i drigolion Gwynedd. Felly, mae'n waith anodd, a gan fod y Pasg yn hwyrach y tro yma, roedd yna dipyn mwy o bobl a'r tywydd yn ofnadwy o boeth ac yn denu pobl i'r ardal. Bydd y sefyllfa yn cael ei fonitro ac mae'r Adran hefyd yn cymryd y cyfle i siarad gydag unrhyw un sydd â phroblemau yn eu ward hwy."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Kevin Morris Jones**

"Efallai bod hi'n amser cael y faniau towio allan a dangos i dwristiaid bod ni'n agored ac yn ddiogel i ymwelwyr a phobl leol ymweld â ni?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Griffith**

"Mae'r Adran yn barod i siarad hefo unrhyw gynghorydd o unrhyw ward. Mae'r Adran wedi bod yn dirwyo. Rwy'n derbyn y pwynt mae'r aelod yn ei wneud ac fe gawn drafodaeth bellach a gweld sut mae pethau'n mynd dros yr haf."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Paul Rowlinson**

"Yn y cyfarfod diwethaf, wrth drafod y gyllideb, fe amlinellwyd beth oedd ar droed er mwyn ceisio atal tai haf rhag symud i'r Dreth Fusnes ac osgoi'r premiwm tai haf. A fedr yr Arweinydd ein diweddaru ar unrhyw lobïo sydd wedi bod yn digwydd i fynd i'r afael ar hyn?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Ein bwriad ni oedd paratoi tystiolaeth, a hoffwn ddiolch i'r Prif Weithredwr am wneud y gwaith yna a'r Adran Gyllid hefyd, a chasglu gwybodaeth allan o'r siroedd sy'n aelodau o'r Fforwm Gwledig, ac mae yna naw sir yn aelod o'r Fforwm. Fe ddaru ni, yn y cyfarfod ar 10 Ebrill, gyflwyno papur i'r Fforwm Gwledig yn amlygu'r gost mewn difri', nid yn unig i gynghorau unigol, ond y gost i gyllideb y wlad Cymru gyfan o fod yn colli'r Dreth Ddomestig yma o'n cyllidebau. Rwy'n falch o ddweud bod y Fforwm Gwledig i gyd wedi cytuno i gefnogi ein cais i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ymgymryd ar ran y Fforwm Gwledig y gwaith o gyflwyno'n hachos i Lywodraeth Cymru. Rwy'n meddwl ei fod yn rhoi mwy o nerth i ni fod yna naw Cyngor, yn hytrach nag un, yn mynd ati ar hyn, ac rydym yn disgwyl adroddiad cynnydd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar y gwaith maen nhw wedi wneud. Mae'n werth nodi yn y fan hyn bod y neges wedi cyrraedd adref a bod y gwas sifil o swyddfa Llywodraeth Cymru wedi trefnu i ddod i'n gweld ar 13 Mai er mwyn clywed y dystiolaeth sydd gennym ac i gael gwell dealltwriaeth o'r broblem sydd wedi codi yn dilyn cyflwyno'r hawl i gael codi premiwm tai haf."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Paul Rowlinson**

"Allwch chi fanylu faint mae'r premiwm wedi codi, neu yn codi, a faint sydd wedi trosglwyddo i Dreth Fusnes felly a pha effaith mae hyn yn cael ar gyllid y Cyngor ac ar y cynlluniau i sicrhau cartrefi addas i bobl Gwynedd?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Y diweddaraf sydd gennyf ydi'r ffigurau a roddwyd yn yr adroddiad. Yng Ngwynedd, mae 1,250 o dai domestig wedi trosglwyddo o'r Dreth Gyngor i Drethi Annomestig ers Ebrill 2014. Mae'n hynny'n golygu, ar lefel Treth Ddomestig, colled flynyddol o bron i

£2m o Dreth Cyngor i Wynedd. O'r hyn rydym ni wedi gallu casglu o gynghorau eraill (a rhaid cydnabod mai gwaith cymharol ysgafn ydyw, ond rydym wedi cael atebion gan o leiaf 6 o'r cynghorau), rydym yn amcangyfrif yn geidwadol, bod yna golled i bwrs y wlad Cymru gyfan o tua £4.5m. Hynny yw, mae holl incwm Cymru wedi gostwng o £4.5m dros y cyfnod yna, sydd, wrth gwrs, yn golled i bob un cyngor yng Nghymru. Rydym wedi manylu ar enghreifftiau o hynny. Mae hyd yn oed yn effeithio ar Gaerdydd a Wrecsam a llefydd sydd heb broblem tai haf. Mi ofynnaf i'r Pennaeth Cyllid amlygu i ni faint o bremiwm rydym ni wedi dderbyn a faint oeddem ni'n amcangyfrif y byddem wedi ei dderbyn."

**Ateb pellach gan y Pennaeth Cyllid**

"Mae'r niferoedd sy'n pasio drosodd o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Treth Fusnes yn cyflymu. Yn y flwyddyn sydd newydd orffen, roedd tua 460 eiddo wedi mynd drosodd o'r Rhestr Ddomestig i'r Rhestr Fusnes, sy'n gynnydd 60% ar y 280 roedd wedi trosglwyddo yn y flwyddyn gynt. Mae angen ymyrryd i gael mwy o gyfiawnder yn hyn, ac mae'r gwaith hynny'n mynd ymlaen. O ran faint o Bremiwm Treth rydym ni'n gasglu, roeddem wedi amcangyfrif ein bod am gael £2.9m llynedd, gyda £200,000 o hwnnw wedi ei neilltuo i bwrpas plismona'r drefn a mentrau yn y maes tai, a'r gweddill ohono wedi'i neilltuo i weithredu'r Strategaeth Tai fydd yn dod gerbron yn fuan. Tra gawn ni rhwng £2.7m a £2.9m i mewn, yn anffodus, pan mae'r eiddo yn trosglwyddo, mae'r Prisiwr yn ôl-ddyddio rhywfaint ohono. Mae'r golled o'r ôl-ddyddio yn broblem 'cash' benodol i ni, tra mae'r trosglwyddo'n golled i bob Cyngor wrth symud ymlaen, oherwydd bod addasiad i'r dosbarthiad grant ar ei gyfer."

**Ateb pellach gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Rydw i'n meddwl ein bod wedi amcangyfrif y byddem wedi gallu cael tua £5m y flwyddyn, felly rydym ar ein colled o £2m - £3m y flwyddyn o'r premiwm yn unig, heb sôn am y golled o'r Dreth safonol. Mae'r ateb, wrth gwrs, yn un cymharol eglur a chlir, ac rydym wedi cynnig yr ateb hwnnw, a'r ateb yma fyddwn ni'n drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, sef bod angen addasu Deddf Tai Cymru i sicrhau, os oes unrhyw dŷ yn dŷ annedd, yna bydd yn cael ei drethu fel tŷ annedd. Hynny yw, ni chaiff fod yn fusnes oni bai ei fod wedi cael caniatâd cynllunio i'w droi yn ryw fath o fusnes gwahanol. Felly, mae hynny'n eithaf syml ac yn hawdd ei drosglwyddo. Yn digwydd bod, roedd y Prif Weithredwr a minnau wedi cael cyfarfod dechreuol gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a bu i ni godi'r pwynt yma gyda hi, ac mae ganddi hi ddiddordeb. Mae ganddi hi brofiad o sefyllfa o'r math yma, ac yn wir fe ddylai bod ganddi ddiddordeb, achos mae'r Ddeddfwriaeth yma'n golygu ein bod ni, nid yn unig yn colli pres i bwrs y wlad yn gyffredinol, ond yn methu cyflawni'r hyn mae'r premiwm tai haf i fod i'w gyflawni, sef i gael mwy o dai ar gyfer ein pobl leol, ac annog pobl a'i gwneud yn rhwyddach i bobl leol gael tai. Ar hyn o bryd rydym ni'n rhoi pres ym mhocedi'r bobl hynny sy'n gallu fforddio tai haf, ac ar y llaw arall, rydym ni'n methu cael y gwariant a ddylai fod yn dod i'n dwylo ni i wneud gwaith lliniaru a darparu tai ar gyfer ein pobl ein hunain."

Nododd aelod fod y mater hwn wedi'i godi yn y cyfarfod diwethaf, ac yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, nad oedd hawl i drafod y mater eto o fewn 6 mis. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd ymateb i gwestiwn a gyflwynwyd gan aelod yn tramgwyddo'r rheol 6 mis.

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Owain Williams**

"Yn dilyn y ffaith na fydd isetholiad yn Ward Morfa Nefyn bellach, faint yn union o'r cynghorwyr ar Gyngor Gwynedd sydd erbyn hyn wedi cerdded i mewn i'r seddau

hynny heb wynebu etholiad a sut mae'r ffigurau hyn yn cymharu â siroedd cyfagos, h.y. Môn, Conwy a Dinbych?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Fel yr ydych yn ymwybodol, cynhaliwyd etholiadau diweddaraf Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Yr adeg honno, nid oedd cystadleuaeth ar gyfer 21 o'r 75 sedd ar Gyngor Gwynedd.

Roedd y sefyllfa ar draws Cymru yn amrywio, gyda chyfanswm o 92 sedd yn ddiwrthwynebiad yng Nghymru yn 2017 (7%), a oedd ychydig yn is na'r sefyllfa yn 2012 pan gafwyd 99 sedd o'r fath, (8%). Mae'n ddiddorol nodi fod dros 50 o'r seddau hynny yn 2017 mewn tair ardal wledig, sef Gwynedd, Powys a Sir Benfro. Dylid hefyd nodi fod gan hanner cynghorau Cymru o leiaf un sedd ddiwrthwynebiad yn 2017.

Roedd y sefyllfa yn y siroedd cyfagos fel a ganlyn:
Conwy - 6 sedd ddiwrthwynebiad (o 59 sedd)
Dinbych - 5 sedd ddiwrthwynebiad (o 47 sedd)
Môn - dim un sedd ddiwrthwynebiad (o 30 sedd)

Rydym yn ymwybodol fod nifer o resymau sy'n ysgogi pobl i sefyll fel Cynghorwyr. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil hefyd yn dangos rhai o'r rhwystrau sydd yn wynebu pobl sydd â diddordeb mewn sefyll. Rhaid cofio hefyd fod y Cyngor yn buddsoddi amser ac adnoddau cyn pob etholiad i annog amrywiaeth ehangach o bobl i sefyll. Mae cyfarch hyn yn sialens barhaus i bob mudiad sydd ynghlwm â Llywodraeth Leol yng Nghymru ac i ninnau hefyd fel cynghorwyr."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Owain Williams**

"Mae'r ffigurau yna felly'n dangos bod 7% o seddau drwy Gymru gyfan wedi cerdded i mewn heb etholiad, ond yng Ngwynedd mae'n 30%, sydd 4 gwaith yn fwy na'r cyfartaledd dros Gymru gyfan. Beth ydym ni am wneud yn ei gylch a beth oedd dyddiad cau'r isetholiad diweddaraf?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Rydw i'n hyderus bod y Cyngor wedi cyfarch y gofynion statudol i gyd yn ymwneud â'r etholiad, ac yn wir maent wedi mynd uwchben y gofynion hynny drwy roi gwybodaeth ar y wefan, a hefyd postio allan gwybodaeth i bobl sydd ddim yn defnyddio e-bost. Mae'n bechod mawr fod pobl ddim wedi sefyll yn yr etholiad ym Morfa Nefyn. Rydym ni fel Plaid Cymru yn gweld bod hwn yn bwnc pwysig ac rydym ni'n croesawu dadl am bolisïau. Dydd Sadwrn nesaf, byddaf mewn digwyddiad ym Mhen Llyn sydd wedi'i drefnu gan y Cynghorydd Wager i gael mwy o ferched i sefyll mewn etholiadau. Mae hwn yn bwnc rwy'n ymddiddori'n fawr ynddo a bûm yn darllen adroddiad llywodraeth leol am amrywiaeth ym maes llywodraeth leol sy'n edrych ar y rhwystrau i bobl sefyll. Roedd yna bennod gyfan yna ar fwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu ac roedd yn sioc i mi ddarllen mai dim ond traean o gynghorwyr sydd heb orfod dioddef hyn. Gan ein bod yn sôn yn benodol am Forfa Nefyn yn y cwestiwn, hoffwn fachu ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i'r cyn-gynghorydd Sian Hughes am ei blynyddoedd o wasanaeth i'r Cyngor ac ar lawr gwlad yn ei ward, ac yn olaf hoffwn ymestyn croeso cynnes iawn i'r Cynghorydd Gareth Jones, a'i longyfarch."

**(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Mae codiad diweddar yn y Dreth Cyngor wedi taro nifer o deuluoedd yn ariannol. Mae angen diolch i’r Cyngor am godi ymwybyddiaeth am y Rhaglen Gostyngiad Trethi sydd ar gael, ond oes modd i’r Aelod Cabinet egluro beth sydd yn cael ei ddiffinio fel ‘incwm isel’ a faint o bobl Gwynedd sydd yn cael gostyngiad yn eu Treth Cyngor?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

“Mae egluro beth sydd yn cael ei ddiffinio fel ‘incwm isel’ yn gymhleth a thechnegol.

Defnyddir y term ‘incwm isel’ yn genedlaethol gan sawl asiantaeth, er nad oes ganddynt ddiffiniad clir o beth yw ‘incwm isel’.

Mae’r lefel incwm fyddai’n gwneud aelwyd yn gymwys am gymorth o’r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn amrywio’n ddibynnol ar ystod o amgylchiadau.

Bydd aelodau’n cofio fod y Cyngor llawn, yng nghyfarfod mis Rhagfyr y flwyddyn ddiwethaf, a phob mis Rhagfyr, yn penderfynu ar Gynllun Gostyngiad Treth Cyngor, ond nodir fod swmp y Cynllun yn cael ei ddiffinio gan reoliadau Llywodraeth Cymru.

Mae’r rheoliadau’n diffinio ‘swm perthnasol’ ar gyfer gwahanol amgylchiadau.

Wrth asesu’r hawl i gael gostyngiad Treth Cyngor, rhoddir ystyriaeth i enillion yr aelwyd, a chaiff y swm yma ei gymharu gyda’r ‘swm perthnasol’.

Gan fod y ‘swm perthnasol’ yn amrywio’n ddibynnol ar sefyllfa ac amgylchiadau’r cais, mae gan y Cyngor gyfrifiannell ar ei wefan, ac mae’r aelodau wedi derbyn linc i hwn, ac mae’n bosib’ i drigolion fynd ar hwn i weld beth yw’r sefyllfa. Mae hwn yn galluogi i bobl Gwynedd ddarganfod os ydynt yn gymwys i gael gostyngiad treth trwy fewnbynnu manylion eu hamgylchiadau personol hwy. Wedyn, mae’n bosib’ i bobl benderfynu bwrw ymlaen i gyflwyno cais am asesiad ffurfiol neu drafod y sefyllfa gyda staff. Rwy’n ymwybodol bod yna waith da iawn yn cael ei wneud gan swyddogion yr adran i bobl sy’n cysylltu gyda hwy.

Ar hyn o bryd, mae 9,301 o aelwydydd yng Ngwynedd yn derbyn gostyngiad yn eu Treth Cyngor, sy’n golygu ymrwymo £9.6m o adnoddau'r Cyngor. Mae tua 58,000 aelwyd yn derbyn bil am Dreth Cyngor, felly mae 9,301 yn agos at 16% o’r cyfanswm sy’n derbyn gostyngiad llawn neu rannol. Gofynnaf i’r Aelodau drosglwyddo’r wybodaeth yma i unrhyw etholwr sydd am geisio amdano.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Ydi’r Aelod Cabinet yn fodlon ail-edrych ar sut mae’r broses yn gweithio ac edrych ar symleiddio’r broses er mwyn helpu pobl Gwynedd?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

“Mi roedd eich cwestiwn gwreiddiol ynglŷn â’r gostyngiad, ac rydw i wedi ateb hynny ac mae hynny’n mynd trwy’r Cyngor ym mis Rhagfyr. Mi roeddech chi’n son am bobl sengl, ac ati. Mae hynny’n ddiffiniad o rywbeth o’r enw ‘*discounted’*, a tydi o ddim yn ostyngiad. Rwy’n credu bod tua 18,000 o bobl yn cael disgownt o’u bil Treth Cyngor. Rwy’n hapus iawn i unrhyw un gysylltu â mi neu’r adran i gael y manylion cywir ynglŷn â’r wybodaeth. Dydi o ddim yn syml fel y gwnes i egluro hefo’r gostyngiad, ond rydych chi’n son am ostyngiad ac rydym ni’n cynnig disgownt hefyd. Felly, rwy’n cydnabod nad yw’n hawdd iawn i’w ddeall, ond mi wnaf edrych i mewn i’r sefyllfa, ac yn hapus iawn i dderbyn unrhyw ohebiaeth.”

**10. PRIF NEGESEUON GAN Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL O RAN PERFFORMIAD 2018-19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad yn amlinellu'r prif negeseuon am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol fydd yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad blynyddol maes o law, yn ogystal â rhoi amlinelliad o'r prif heriau a rhaglenni trawsffurfio ar gyfer 2019/20.

Eglurodd y Cyfarwyddwr:-

- y byddai'r adroddiad blynyddol ar gael yn ei ffurf orffenedig ym mis Gorffennaf ac y byddai'n cael ei gylchredeg i holl aelodau'r Cyngor.
- oherwydd ymrwymiadau personol, na fyddai'n bosib' iddi ddod i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf i gyflwyno'r adroddiad, felly eleni roedd adroddiad cynnar lefel uchel yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor.

Manteisiodd y Cyfarwyddwr ar y cyfle i ddiolch i'r holl staff, yn fewnol ac allanol, am eu gwaith diflino ac ymroddedig eto eleni. Diolchodd i Marian Parry Hughes (Pennaeth Plant a Theuluoedd) ac Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant) am eu gwaith ymroddgar a gwerthfawr drwy gydol y flwyddyn. Diolchodd hefyd i'r craffwyr am eu mewnbwn ac i'r Aelodau Cabinet yn y maes gofal, y Cynghorwyr W.Gareth Roberts a Dilwyn Morgan am eu cefnogaeth dros y flwyddyn. Nododd hefyd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cynghorydd Dafydd Meurig, oedd wedi cymryd drosodd y portffolio oedolion, iechyd a llesiant.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Croesawyd yr adroddiad a nodwyd bod y gyfres o glipiau fideo ar Hafan y Sêr, Hafod y Gest, Plas Hafan a Go Dementia, a ddangoswyd fel rhan o'r cyflwyniad, wedi dod â gwaith y gwasanaeth i fyw i'r aelodau.
- Nodwyd bod y ddarpariaeth wedi'i drawsffurfio yn y blynyddoedd diwethaf a chroesawyd nifer o gynlluniau newydd ac arloesol, megis tai gofal ychwanegol Hafod y Gest, y cynllun peilot ym Methesda ar gyfer trawsnewid gofal cartref a Mwy na Geiriau. Cyfeiriwyd yn benodol at Hafan y Sêr, a nodwyd y dylid ymfalchïo ynddo, fel yr unig ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, gan ledaenu'r neges ar draws Cymru i ddangos beth sy'n bosib'.
- Awgrymwyd y dylai pob aelod fynd i ymweld â chartrefi henoed yn eu hardal er mwyn gweld y gwaith arbennig sy'n cael ei wneud gan y staff.
- Gofynnwyd am gynnwys adran yn yr adroddiad blynyddol llawn ynglŷn â'r hyn oedd yn digwydd o ran gwasanaethau ar gyfer unigolion ag awtistiaeth.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau unigol, nodwyd:-

- Bod y cynnydd yn niferoedd plant mewn gofal yn adlewyrchu ein cymdeithas a'r heriau roedd llawer o'r plant a'r teuluoedd yn wynebu. Dyna pam bod y gwaith ataliol a'r ymyrraeth gynnar mor allweddol fel bod modd cynnig y gefnogaeth yma i deuluoedd a phlant, drwy weithio gyda'r ysgolion, ayb, yn y ffordd fwyaf addas i atal problemau rhag dwysau. Roedd disgwyliadau wedi cynyddu yn sgil y gwaith o godi ymwybyddiaeth pobl o faterion diogelu ac roedd y ffaith bod yna blant mewn gofal bellach yn parhau i fyw gartref gyda'u rhieni wedi cyfrannu at y cynnydd yn y niferoedd hefyd.
- Ei bod wedi mynd yn beth cyffredin i glywed am gwmnïau gofal annibynnol preifat yn mynd i drafferthion ariannol, felly roedd yn bwysig cloriannu beth

oedd y farchnad gofal mwyaf addas i Wynedd. Gan fod gennym ddarpariaeth fewnol a llawer o ddarpariaethau wedi tyfu yng Ngwynedd, boed hynny'n annibynnol, trydydd sector neu breifat, nid oedd y Cyngor hwn mor ddibynnol ar y cwmnïau mawr ag yr oedd rhai siroedd eraill. Ond, roedd rhaid bod yn glir beth oedd y gofyn o'r sector gofal, mapio'r gofyn hwnnw ar y cyd â hwy a gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth, boed yn fewnol neu'n allanol, yn cael ei ariannu, fel ei bod yn bosib' iddo weithio'n iawn. O bosib' nad oedd yr eglurder wedi bod yn ddigonol dros y blynyddoedd, ond roedd yn rhaid i'r Cyngor gael darpariaeth gynaliadwy ac o safon wrth symud ymlaen. Roedd gwaith yn digwydd yn rhanbarthol ac yn lleol ar hynny i wneud yn siŵr bod y balans yn iawn, ond roedd gan y Cyngor benderfyniadau anodd i'w gwneud mewn hinsawdd ariannol heriol.

- Mai un o'r anawsterau mwyaf o ran y maes 'Mwy na Geiriau' oedd sut i gael ein darpariaethau allanol, annibynnol i gydymffurfio'n llawn â'r gofynion. Er y disgwyliad arnynt, ac er bod yna drafodaethau digon adeiladol wedi digwydd dros y blynyddoedd, nid oeddent wedi bod yn derbyn cefnogaeth ddigonol o ran sut i fynd ati i wella'r ddarpariaeth ieithyddol. Bellach, roedd y Cyngor yn eu cefnogi'n llawer mwy rhagweithiol o ran sut i fynd ati i lunio polisïau, recriwtio'n wahanol a chreu amgylchedd llawer mwy Cymreig o fewn eu cartrefi.
- Er mai staff o'r gymuned oedd yn cynnal y gofal yn yr Hafod y Gest newydd, nad oedd yna unrhyw fwriad i dynnu oddi ar y gymuned. Fel tenantiaid, y model gofal mwyaf addas ar gyfer trigolion Hafod y Gest oedd gofal cartref, ac felly, yn hytrach na chael un tîm yn yr adeilad a thîm arall yn y gymuned, penderfynwyd sefydlu un tîm, oedd yn gallu cyd-drafod a chyd flaenoriaethu'r gwaith. Credid y byddai'r trefniant hwn yn cryfhau'r gymuned a'r tai gofal ychwanegol, ond cytunodd y Cyfarwyddwr i fynd â'r sylw yn ôl i'r timau fel y gellid darparu gwybodaeth mewn ymgais i fodloni'r aelod nad oedd yna risg a bod hyn yn rhywbeth i'r gwasanaeth ei fonitro wrth i amser fynd yn ei flaen.
- Bod yna lawer wedi digwydd yn y maes dementia o ran buddsoddi mewn cartrefi a chydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd o safbwynt sicrhau darpariaeth di-dor a gwell. Gellid anfon gwybodaeth at yr aelod o ran datblygiadau yn Nolgellau a Bermo yn benodol, ond roedd y broses yn ymwneud â cheisio gwneud y ddarpariaeth adeiladau yn llawer mwy addas i bobl â dementia, ac yna edrych sut y gellid cael staff addas gyda'r sgiliau, ayb, i gyd-fynd â'r buddsoddiad hwnnw.
- Mewn ymateb i awgrym bod lle i wella'r trefniadau newydd ar gyfer cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol y tu allan i oriau, cynigiodd y Cyfarwyddwr ei bod yn cael sgwrs gyda'r aelod er mwyn gweld beth oedd ei brofiad o ffonio i mewn.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2018-19**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) ei adroddiad blynyddol ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn canolbwyntio ar ddatblygiadau 2018/19 a'r blaenoriaethau datblygu yn 2019/20.

Diolchodd y Pennaeth i holl aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth a'u harweiniad, yn arbennig y Cadeirydd, y Cynghorydd Dewi Owen, a'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, a hefyd i'r Tîm Democratiaeth, dan arweiniad y Rheolwr Democratiaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nododd aelod ei fod yn cael problemau parhaus gyda'r Surface Pro.

- Nodwyd bod Ystafell yr Aelodau wedi dyddio bellach ac nad oedd argraffydd yno.

## 12. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Gwahoddwyd y Cyngor i benodi cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2019/20.**

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2018-19

Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm Craffu, y Cynghorydd Beth Lawton, adroddiad blynyddol craffu ar gyfer 2018/19. Esboniodd mai rôl y Fforwm Craffu oedd cymryd trosolwg o waith yr holl bwyllgorau craffu a gofynnodd i'r aelodau gysylltu ag unrhyw aelod o'r fforwm os oeddent o'r farn bod mater angen ei graffu. Diolchodd i'w chyd-gadeiryddion a'r is-gadeiryddion, a phawb sy'n ymwneud â chraffu, am eu gwaith.

Nododd aelod ei bod yn falch o weld bod toiledau cyhoeddus yn dal i gael sylw, ond ei bod yn siomedig nad oedd y mater wedi ei ddatrys mewn 10 mlynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod yna Strategaeth Toiledau Cyhoeddus newydd ar y gweill ac atgoffwyd yr aelodau o'u hawl i alw i mewn unrhyw fater sy'n mynd gerbron y Cabinet.

Diolchwyd i Gadeirydd y Fforwm Craffu am gyflwyno'r adroddiad ar ran y cadeiryddion craffu.

## 14. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol.

Nodwyd bod y sefyllfa wedi newid ers paratoi'r adroddiad gan fod sedd wag Morfa Nefyn wedi ei llenwi bellach ac aelodaeth y Cyngor yn ôl yn 75. Os derbynnir cais, bydd angen cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod nesaf y Cyngor yn adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y newid gyda'r un sedd yn arwain at unrhyw newid i'r dyraniad seddau, ac roedd y sefyllfa yn parhau'n union fel a nodwyd yn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol ei siomedigaeth nad oedd Is-gadeiryddiaeth y Cyngor wedi mynd i'r Grŵp Annibynnol, yn unol â'r arfer bod Grŵp Plaid Cymru a'r Grŵp Annibynnol yn cael y sedd bob yn ail. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd darpariaeth yn y Cyfansoddiad ar gyfer neilltuo'r Is-gadeiryddiaeth i grŵp penodol.
- Mynegwyd siomedigaeth nad oedd pob grŵp yn penodi aelodau ar y pwyllgorau craffu a holwyd faint o amser oedd ganddynt cyn colli'r seddau hynny. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro, os nad oedd grŵp yn penodi o fewn amserlen, bod darpariaeth yn y Cyfansoddiad oedd yn rhoi'r hawl i'r Cyngor benodi aelodau ar bwyllgorau ar sail gyffredinol, heb ddilyn cydbwysedd gwleidyddol. Fodd bynnag, gydag unrhyw adolygiadau dilynol o'r cydbwysedd, roedd rhaid dychwelyd i'r drefn flaenorol, oedd yn cynhyrchu ei broblemau ei hun. Mewn ymateb i honiad nad oedd dim yn cael ei wneud

ynglŷn â'r sefyllfa, nododd y Prif Weithredwr y byddai'n codi'r mater gyda'r Grŵp Busnes er ceisio datrysiad.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel a nodir yn yr atodiad i'r cofnodion hyn ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r hyn a nodir yn yr atodiad.**

**(b) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**

**(c) Mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** | **Grŵp Plaid Cymru** |
| **Pwyllgor Craffu Cymunedau** | **Grŵp Annibynnol** |
| **Pwyllgor Craffu Gofal** | **Grŵp Annibynnol** |

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 2.55yp.

________________________________

**CADEIRYDD**

**ATODIAD**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 10 | 5 | 2 | 1 | | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 | 5 | 2 | 0 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | 18 |
| Archwilio a Llywodraethu | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | 18 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 8 | 5 | 1 | 1 | | 15 |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 4 | 1 | 0 | 2 | 15 |
| Iaith | 8 | 5 | 1 | 1 | | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 5 | 2 | 0 | | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 2 | 1 | 0 | | 7 |
| **Nifer y seddau** | **84** | **45** | **13** | **6** | **6** | **154** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 0 | 0 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 1 | 1 | | 11 |
| CYSAG | 4 | 3 | 0 | 0 | | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 1 | 0 | | 8 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **103** | **55** | **15** | **7** | **7** | **187** |